ATODLEN 6

DULLIAU CYFEIRIO AR GYFER ASESU
CRYNODIADAU O LYGRYNNAU PERTHNASOL

# RHAN IV

## Dull cyfeirio ar gyfer samplu a mesur $PM_{10}$

Y dull cyfeirio ar gyfer samplu a mesur $PM_{10}$ fydd y dull a ddisgrifir yn EN 12341 “Air Quality — Field Test Procedure to Demonstrate Reference Equivalence of Sampling Methods for the $PM_{10}$ fraction of particulate matter”(**1**). Mae'r egwyddor fesur wedi'i seilio ar gasglu'r gyfran $PM_{10}$ o fater gronynnol amgylchynol ar hidlwr a darganfod y màs grafimetrig.

(**1**) Cyhoeddiad y “CEN”, Sefydliad Safonau Ewrop, cyfeirnod BSEN 12341, sydd ar gael oddi wrth Sefydliad Safonau Prydain “BSI” fel ar gyfer troednodyn (b) uchod.